**ATODIAD**

**Diweddariad i’r asesiad cychwynnol o’r bygythiad llifogydd ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg**

Cafodd yr asesiad cychwynnol o’r bygythiad llifogydd ar gyfer Bro Morgannwg ei adolygu yn ystod 2017, gan ddefnyddio’r holl wybodaeth a data presennol a pherthnasol am berygl o lifogydd, a chafodd ei gytuno â Chyfoeth Naturiol Cymru ar 28 Tachwedd 2017.

Mae’r datganiadau isod yn disgrifio’r adolygiad o’r asesiad perygl o lifogydd ers cyhoeddi’r adroddiad asesu rhagarweiniol yn 2011.

**Perygl o lifogydd yn y gorffennol**

Bu adolygiad o’r llifogydd a brofwyd ers cyhoeddi’r Asesiad Cychwynnol o’r Bygythiad Llifogydd yn 2011 ac ni chafwyd unrhyw lifogydd a achosodd ganlyniadau niweidiol sylweddol yn lleol.

**Perygl o lifogydd yn y dyfodol**

Nodwyd yr wybodaeth ganlynol ers cyhoeddi’r Asesiad Cychwynnol o’r Bygythiad Llifogydd yn 2011 sydd wedi arwain at newid mewn dealltwriaeth o’r perygl o lifogydd yn y dyfodol:

Mae allbynnau modelu perygl o lifogydd drafft ar gyfer Pentref Llan-faes wedi dangos bod tua 40 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb canolig.

**Ardaloedd mewn perygl o lifogydd (APLl)**

Caiff cylch 1 yr APLl yng Nghymru ei adolygu yn rhan o ACPL cyfunol manwl a fydd yn cynnwys pob ffynhonnell o berygl llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2018.